

Tasg 1

Bethlehem

1. Edrychwch ar y lluniau ar y brif sgrin eto. Beth maen nhw'n ei gyfleu?

2. Darllenwch y gerdd yn ofalus eto.

a. Petaech chi'n cyhoeddi'r gerdd mewn cylchgrawn a'ch bod chi eisiau defnyddio llun addas i'w chynrychioli, pa un o'r lluniau byddech chi'n ei ddewis a pham?

b. Sut mae'r bardd yn cyfleu'r syniad o drais? Dewiswch eiriau ac ymadroddion a dwedwch pam maen nhw'n effeithiol.

c. Nodwch enghreifftiau o gyferbynnu yn y darn. Pam mae'r rhain yn effeithiol?

ch. Mae enghraifft o bersonoli yn y darn. Dyfynnwch yr enghraifft a dywedwch pa ddarlun mae'n creu. Ydy hyn yn effeithiol? Pam?

d. Sut mae'r darlun sy'n cael ei greu gan y personoli yn wahanol i'r darlun traddodiadol o noson geni'r Iesu?

dd. Ydy'r gerdd yn optimistaidd neu'n besimistaidd? Rhowch resymau i gefnogi'ch atebion.

3. Mae llawer o broblemau yn y Dwyrain Canol ac mae'n sefyllfa gymhleth iawn ond beth yw'r brif broblem?

Ymchwiliwch i hyn ac yna trafodwch hyn mewn grwpiau.

Ar ddiwedd y gwaith grŵp, cymharwch syniadau'r gwahanol grwpiau fel dosbarth.